





# DATGLOI EIN POTENSIAL

ESGOBAETH LLANELWY

## ADRODDIAD BLYNYDDOL

2019



# Cyflwyniad gan Esgob Llanelwy

**Croeso i'n hadroddiad blynyddol am 2019, sy'n rhoi manylion am y ffordd mae elfennau o fywyd yr esgobaeth yn esblygu i'n galluogi i wasanaethu fel Eglwys. Y newyddion da ydy bod ein ffocws diweddar ar dyfiant wedi arafu'r dirywiad. Mae sawl un o'n heglwysi'n tyfu, rhai yn dal eu tir, ond gydag eraill, mae'r dirywiad yn parhau. Yn ddadleuol, efallai, mae'n ymddangos i mi mai'r Ardaloedd Cenhadaeth sydd wedi dangos amharodrwydd i dderbyn newid ydy'r rhai sydd fwyaf ar ei hôl hi o ran twf.**

Mae Ardaloedd Cenhadaeth wedi'u cynllunio i'n helpu i annog ein gilydd i fywiogi ein tystiolaeth a'n gweinidogaeth. Mae'r esgobaeth yn buddsoddi mewn rhaglenni megis Gobaith a Dyfodol ac Arwain eich Eglwys at Dwf er mwyn cynorthwyo pawb ohonon ni, yn ordeiniedig neu'n lleyg, i gydio yn y weledigaeth o sut i fod yn ffyddlon i Grist, ac i'w orchymyn i fynd a "gwneud disgyblion". Rydyn ni'n deisyfu'r tyfiant – mewn ffydd, mewn niferoedd ac mewn gwasanaeth – nid er mwyn dal at yr hyn y buon ni, ond, yng Nghrist, am yr hyn y gallwn fod.

Rhaid i graidd ein ffydd fod yn gyflwyniad byw i Arglwydd Bywyd: yr Un a fu farw ar groes i dalu iawn am ein pechodau, ac a gododd eto i fywyd newydd er mwyn i ddynoliaeth allu etifeddu a darganfod llawnder bywyd. Os byth i'n haddoliad a'n tystiolaeth fethu â chyfleu edifeirwch a ffydd yn effeithiol, yna ein haddoliad a'n tystiolaeth ni sydd angen ei newid, yn hytrach na'r gwirionedd rydyn ni i'w gyhoeddi.

## FELLY BETH SY'N GWNEUD GWAHANIAETH?


- Y cyffro am Iesu Grist i ddechrau. Oni bai ein bod wedi'n cyffroi go iawn am ein perthynas gyda'r Arglwydd, does ganddon ni ddim byd i ddenu pobl.
- Gadael i bobl eraill gyffroi am Grist ydy'r ail beth. Mae hi'n beth trist ond od iawn ein bod weithiau, fel Cristnogion, yn cael rhyw bleser chwithig o danseilio ffydd eraill.
- Parodrwydd i fod yn rhydd, a chaniatáu rhyddid i Dduw, ydy'r trydydd. Dim ond dwy ffordd sydd yna i fyw, meddai un awdur o Gristion, "Fy ffordd fy hun", neu "Dy ewyllys Di".

## AC MAE YNA NEWYDDION DA I'W DDATHLU

Mae cannoedd o'n lleygwyr wedi cyffroi am bosibiliadau tyfiant trwy eu hymwneud ag "Arwain eich Eglwys at Dwf" a chyrsiau cenhadaeth eraill.

Mae'r esgobaeth wedi cynnal ymgysylltiadau cymdeithasol gwirioneddol ymarferol gyda'r "Lloches Tywydd Oer" yn Wrecsam, a phrosiectau eraill.

Mae ein hanner cant ac un o ysgolion Eglwys wedi ymestyn yr addysg maen nhw'n ei gynnig ac yn addysgu dros chwe mil o bobl ifanc i feddwl am y ffydd drostyn nhw'u hunain.



Mae 60 o leygwyr wedi dod yn ddysgwyr brwdfrydig trwy gwrs "Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd" a gynigir yn Athrofa Padarn Sant.

Rydyn ni'n cynnal Eglwys yr Ifanc, Fforwm yr Ifanc a Phererindod yr Ifanc lwyddiannus.

Mae niferoedd anhygoel o wirfoddolwyr lleyg wedi cynnig eu hunain i gymryd rhan mewn Cynadleddau Ardaloedd Cenhadaeth, ac archwilio posibiliadau galwedigaeth i'r weinidogaeth leyg.

Mae fy ngweinidogaeth yn golygu fy mod yn dod i gysylltiad, i ryw raddau neu'i gilydd, â'r mentrau a nodir uchod ac maen nhw'i gyd yn haeddu clod, ond ymysg y pethau a brofais yn bennaf yn fy ngweinidogaeth mae'r canlynol:

- Cydweithrediad ymysg eglwysi mewn Ardaloedd Cenhadaeth er mwyn rhannu beichiau ariannol.
- Ymrwymiad pob oedran mewn Conffyrmasiwn. Mae'r niferoedd yn cynyddu wedi gostyngiad sylweddol, ond gyda deg ar hugain yn derbyn bedydd esgob y Pasg hwn yn unig, a phobl o naw i nawdeg yn dod ymlaen i wneud ymrwymiad, mae pob Conffyrmasiwn yn gyffrous.
- Niferoedd cynyddol am gael eu Hordeinio. Yn ystod fy mlwyddyn gyntaf yn yr esgobaeth, ni chafwyd yr un Ordeiniad Gŵyl Pedr. Dim ymgeiswyr. Dros ddeng mlynedd mae niferoedd wedi codi'n raddol, fel erbyn eleni, fe fydd chwe offeiriad a chwe diacon yn cael eu hordeinio - fe fydd mwy y flwyddyn nesaf a mwy fyth y flwyddyn ganlynol. Rydw i'n ddiolchgar tu hwnt i waith caled rhai Ymgynghorwyr Galwedigaethol a Chyfarwyddwyr Ymgeiswyr Urddau'r Esgobaeth, ond rhaid i bob un ohonon ni dderbyn clod am ddod yn Eglwys sy'n ysbrydoli pobl i wasanaethu.
- Cynnydd yn y nifer o wahanol ymgeiswyr ifanc. Mae dros 30 o rai dan 30 oed yn archwilio posibiliadau galwedigaeth gyda Cymry'r Groes.
- Ymrwymiad angerddol i genhadaeth ar y Pwyllgor Sefydlog a Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth.
- Y posibilrwydd o newid a thwf radical trwy fenter Stryd Gobaith.

Fase dim o hyn wedi bod yn bosib heb lafur, brwdfrydedd ac ymrwymiad sawl un, a'u parodrwydd i fod yn ddilynwyr lle bo Duw'n arwain. Felly diolch ichi – i fy nghydweithwyr yn y weinidogaeth ordeiniedig, yn nhîm yr Esgobaeth, y weinidogaeth leyg, ymysg cynulleidfaoedd yr addolwyr, eich ffyddlondeb, eich llafur diflino, a'r diolch mwyaf oll, am arweiniad parhaus a chyfeiriol ac awdurdod yr Ysbryd Glân.



Esgob Gregory


# Twf

*gan Tracey White, Cyfarwyddwr Adnoddau*

**Ym mis Mehefin 2019, derbyniodd yr esgobaeth y grant cyntaf gan Gronfa Efengylu yr Eglwys yng Nghymru. Bydd y grant gwerth £1.9m yn cefnogi Stryd Gobaith, math newydd o gymuned Gristnogol yn Wrecsam sy'n cael ei chynnal mewn partneriaeth ag eglwysi presennol ac wedi'i hanelu at ymgysylltu â phobl ifanc a theuluoedd. Bydd arbenigedd a phrofiad yn llifo o Stryd Gobaith i gefnogi tyfiant mewn rhannau eraill o'r esgobaeth.**

Yn 2018, cafodd Ardaloedd Cenhadaeth ledled yr esgobaeth eu hannog i dyfu eu cynulleidfaoedd ar y Sul ac anelu at darged tyfiant o 10%. Er na lwyddodd pawb i gyrraedd y nod hwn, fe welwyd ardaloedd o dwf diddorol, yn aml y tu allan i wasanaethau traddodiadol y Sul.

Canlyniad y ffocws ar dyfiant oedd arafu'n sylweddol graddfa'r dirywiad ar hyd ac ar led yr esgobaeth: yn seiliedig ar 19 o'r 21 Ardal Genhadaeth, fe welwyd graddfa dirywiad o 2.3% rhwng 2017 a 2018.




Ar gyfer 2019, mae pob Ardal Genhadaeth wedi gosod targedau tyfiant yn amrywio o 2% i 10%. Mae hyn yn rhoi targed tyfiant o 6% ar gyfer Presenoldeb Cyfartalog y Sul yn 2019. Yn bwysicach na dim, mae yna sgwrs a sôn am dwf!



### EGLWYS LEGO

Allor... canhwyllau... llestri cymun... ond yn ogystal â'r cyfarpar eglwys arferol, bellach mae gan Eglwys Sant Paul, Llandudno focsys Lego. Maen nhw'n cael eu defnyddio mewn clwb ar ôl ysgol wythnosol i blant, a gynhelir mewn cydweithrediad â meithrinfa leol. Mae'r plant yn clywed stori o'r Beibl, ac yna'n creu pethau allan o'r Lego yn gysylltiedig â'r hyn maen nhw newydd ei glywed. Gall hynny fod yn unrhyw beth o golomennod Lego ar gyfer y Pentecost i gystadleuaeth adeiladu'r tŵr Babel talaf.

Mae'r plant wrth eu bodd gyda'r syniad a'r gynulleidfa hefyd, sydd wedi bod yn chwilota'u cartrefi am fwy o Lego i'w gyfrannu. Yn ddiweddar, ail-lansiodd St.Paul's wasanaeth teuluol misol, eto'n cynnwys thema Lego, sy'n dechrau denu teuluoedd o'r ardal i fentro trwy ddrysau eglwys am y tro cyntaf.

## ARWAIN EICH EGLWYS AT DWF (LYCIG)

Mae'r esgobaeth wedi buddsoddi er mwyn anfon pobl, yn lleygwyr ac ordeiniedig, ar gyrsiau LyCiG, sy'n annog ac yn galluogi eglwysi i dyfu, o ran niferoedd ac yn ysbrydol.

| | | NIFEROEDD YN MYNYCHU | CYFANSWM |
|---|---|---|---|
| CYRSIAU PRESWYL | 2017 | 49 | 164 |
| | 2018 | 68 | |
| | 2019 | 47 | |
| DIWRNODAU DILYNOL | 2017 | 98 | 200 |
| | 2018 | 102 | |
| | 2019 | Heb eu cynnal eto | |
| DIWRNOD HYFFORDDI ARWEINWYR AG / STAFF YR ESGOB | 2018 | 26 | 26 |
| | | EFFEITHIAU | 390 |

Mae pob Ardal Genhadaeth wedi derbyn pecyn Lleol LyCiG ac mae'r rhain yn cael eu cynnal yn rheolaidd mewn rhai ardaloedd ac yn dechrau codi diddordeb mewn ardaloedd eraill.

**Mae'r pedwar addewid a wneir wedi cwblhau sesiwn LyCiG fel a ganlyn:**

- Llunio gwasanaethau hawdd eu defnyddio
- Trafod LyCiG gyda Phwyllgor yr Eglwys neu Gynhadledd Ardal Genhadaeth
- Gweddïo am dyfiant
- Gwahodd pobl

## CYNLLUNIAU I'R DYFODOL

- Mae gwaith wedi dechrau ar strategaeth bwrpasol i gefnogi cenhadaeth a gweinidogaeth wledig. Mae gweithgor yn cael ei sefydlu i gasglu gwybodaeth a gwrando ar gymunedau.
- Bydd 2020 yn gweld agor Stryd Gobaith yn Wrecsam, gwagle a gynlluniwyd i'r rhai hynny sydd â fawr ddim neu dim profiad o eglwys draddodiadol.
- Ail-ffocysu ein strategaeth gyfathrebu er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd.
- Buddsoddiad parhaus yn LyCiG er mwyn ffocysu ar: Weddi, Presenoldeb, Cyhoeddi, Perswadio.

## EFFAITH LYCIG – ADBORTH YN 2017

Bron i flwyddyn wedi'r LyCiG cyntaf, mae Ardal Genhadaeth Aber-Morfa wedi cyflawni'r canlynol:

1. Newid yr hysbysfyrddau: symud yr arwyddion Dim Parcio a'u disodli gyda Croeso
2. Dechrau grŵp gweddi misol rheolaidd dros dyfiant
3. Dechrau cyrsiau LyCiG lleol i bwyllgorau'r eglwysi
4. Cynnal cyrsiau START
5. Cynnal cyrsiau 'Symud Ymlaen'
6. Sefydlu grwpiau Gofal Profedigaeth mewn caffis lleol
7. Cynnal stondin yn Sioe Awyr Y Rhyl gyda thaflenni a phethau am ddim
8. Lansio sesiynau Bingo - nid pobl eglwys ydy'r rhan fwyaf o'r rhai hynny sy'n dod
9. Llunio gwahoddiadau lliwgar/deunydd cyhoeddusrwydd (o'r elw wnaed ar y Bingo!)
10. Agor cronfa twf eglwys neilltuol – i ariannu mentrau newydd
11. Lansio grŵp a anelir at blant bach a'u rhieni; rhoddir gwahoddiadau yng nghyfarfodydd cyn bedydd ac yn y bedydd
12. Gwnaed llawer o waith ar groesawu a derbyniwyd sylwadau yn nodi bod yr awyrgylch wedi newid







# Grŵp Llywio Datblygu

*gan y Canon Ganghellor Pam Powell, Swyddog Arweiniol a Chyfarwyddwr Gweinidogaeth*

**Mae'r grŵp llywio datblygu yn cynnwys 12 o aelodau ac yn ceisio cefnogi'r weinidogaeth, ffurfio a hyfforddi pawb, yn lleygwyr a chlerigwyr, ledled yr esgobaeth. Cewch fwy o wybodaeth wrth fynd i:** https://dioceseofstasaph.org.uk/find-your-calling/

Mae gan yr esgobaeth 75 o glerigwyr yn cefnogi cynulleidfaoedd mewn 216 o eglwysi mewn 21 o Ardaloedd Cenhadaeth ar draws tair archddiaconiaeth.

## GALWEDIGAETHAU

Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn weithgar iawn o ran dirnadaeth, yn enwedig at ystod ehangach o weinidogaethau. Mae ystod oedran y bobl sy'n profi eu galwad hefyd wedi ymestyn, gyda phobl ifanc yn dilyn galwedigaeth, yn enwedig tuag at weinidogaeth offeiriadol cyflogedig.

| CATEGORI GWEINIDOG | RHIF |
|---|---|
| Curadiaid (Llawn amser/cyflogedig) | 6 |
| Curadiaid (Rhan amser/Gweinidogaeth ddigyflog) | 10 |
| Caplan Ieuenctid cyflogedig | 2 |
| Hyfforddi fel Offeiriad (Cyflogedig) | 9 |
| Hyfforddi fel Offeiriad (Digyflog) | 6 |
| Hyfforddi fel Diacon | 1 |
| Hyfforddi fel Darllenydd | 5 |
| Hyfforddi fel Efengylydd | 1 |
| Hyfforddi fel Caplan Bugeiliol | 2 |
| Camau Cyntaf Dirnadaeth | 17 |

Mae gwaith wedi'i wneud eleni i ddod ag Cynghorwyr a Dewiswyr Galwedigaethol ynghyd i esbonio rolau a helpu ymgeiswyr. Mae'r gwaith gydag Arweinwyr Ardaloedd Cenhadaeth yn golygu bod mwy o bwyslais bellach ar Ardaloedd Cenhadaeth o ran lleoliadau. Mae Ardaloedd Cenhadaeth yn cael eu hannog i adeiladu a dewis timau i dyfu gyda'i gilydd mewn perthynas â'u cyd-destun. Mae Cedewain wedi bod yn llwyddiannus yn hyn o beth.



## CYFEIRIAD YSBRYDOL

Ym mis Medi 2018, dechreuodd Esgobaeth Bangor gwrs newydd i hyfforddi cyfarwyddwyr ysbrydol. Mae pump o bobl o Lanelwy yn cyfarfod yn fisol ar gyfer hyfforddiant ac os bydd pob un yn llwyddo, bydd Coleg Cyfeiriad Ysbrydol yn cynyddu o 22%. Bydd hyn yn gymorth i gwrdd â'r cynnydd yn nifer y ceisiadau am gyfarwyddwyr ysbrydol, canlyniad i'r nifer uwch o ymgeiswyr ar gyfer y weinidogaeth.

## FFURFIANT YSBRYDOL

Mae'r grŵp Ffurfiant Ysbrydol wedi ymateb i geisiadau gan Ardaloedd Cenhadaeth a grwpiau eraill i ddarparu cefnogaeth ar gyfer Dyddiau Llonydd a/neu Ddyddiau Gweddi. Mae'r grŵp Ffurfiant Ysbrydol, mewn cydweithrediad â'r Ardal Genhadaeth, yn llunio rhaglen addas ac yn awgrymu adnoddau, o sawl ffynhonnell, gan gynnwys deunydd a ddarperir i'r esgobaeth gan ein cyn-Genhadwr Preswyl, Mark Yaconelli. Cynigiwyd sesiynau hefyd gan aelodau'r grŵp Ffurfiant Ysbrydol ar gyfer y rhaglen Hyfforddi Gyda'n Gilydd.

**Mae gwaith wedi dechrau ar adolygu Rheol Bywyd yr Esgobaeth a Phecyn Cymorth Ysbrydolrwydd.**



## JON AC ESTHER ANDREWS – CAPLANIAID IEUENCTID A PHLANT

Rydyn ni wedi bod ynghlwm â ffurfiant ar gyfer y weinidogaeth drwyddedig lawn amser fel Caplaniaid Ieuenctid a Phlant ym Mhadarn Sant am y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r hyfforddiant hwn wedi golygu Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd, arwain addoliad y coleg fel rhan o dîm, mynychu cyrsiau preswyl a lleoliad. Bu Esther ar leoliad yn Ardal Genhadaeth Aber-Morfa, a bu Jon yn gweithio yn Ardaloedd Cenhadaeth Bryn a Môr, a Moryd a Mynydd.

Mae'r lleoliadau wedi amrywio'n fawr, gan ein gweld ni'n cynnal gwasanaethau ysgolion, addysgu gwersi AddGref, Llan llanast, gwasanaethu teuluol a bod yn rhan o dîm yn y gwahanol glybiau ieuenctid/plant. Fe gawson ni hefyd y fraint o gymryd rhan mewn gwaith ieuenctid arall, megis helpu grŵp o bobl ifanc i arwain addoliad yng Nghynhadledd yr Esgobaeth a mynd gyda Fforwm Ieuenctid ar benwythnosau i'r Ganolfan Fynyddig Gristnogol.

Wedi'n trwyddedu, bydd Esther yn cael ei chyflogi yn Ardaloedd Cenhadaeth Dinbych a Dyffryn Clwyd, a bydd Jon yn gweithio yn Ardal Genhadaeth Aled. Mae'r hyfforddiant wedi rhoi sylfaen ddiwinyddol inni ar gyfer cyflogaeth, ffrindiau gydol oes a'r cyfle i gyflawni'r hyn a gredwn y mae Duw wedi'n galw i wneud. Mae hi wedi bod yn heriol gan mai prosiect arloesol gan yr esgobaeth oedd ein llwybr hyfforddiant, ond rydyn ni wedi'n cyffroi o feddwl beth sydd o'n blaenau!



# Grŵp Llywio Ymgysylltu

*gan Sarah Wheat, Swyddog Arweiniol y Grŵp Llywio Ymgysylltu*

**Mae'r Grŵp Llywio Ymgysylltu'n ceisio herio anghyfiawnder cymdeithasol ac yn sefyll gyda'r rhai hynny sydd ar gyrion cymdeithas. Mae'n cynnal ac yn cefnogi prosiectau ledled yr esgobaeth, gydag aelodau o'r grŵp llywio'n adrodd yn ôl ar eu gwaith. Ceir gwybodaeth am y prosiectau yn https://dioceseofstasaph.org.uk/faith-in-action/**

## BWYD YN YSTOD Y GWYLIAU

Ers 2015, mae prosiectau i fynd i'r afael â'r gofyn am fwyd yn ystod y gwyliau a chefnogi plant a theuluoedd wedi'u cynnal gan eglwysi ar draws yr Esgobaeth. Maen nhw'n defnyddio fformat syml ond effeithiol: Eglwysi'n gweithio gyda darpariaethau chwarae agored, lleol i gyflenwi pecynnau bwyd i blant a fyddai fel arall yn llwgu. Mae'r fformat hwn yn galluogi eglwysi a chymunedau i ddod ynghyd ac, am gost fach, ddarparu pryd syml i blant a phobl ifanc yn eu hardal leol. Mae'n caniatáu darpariaeth chwarae leol i barhau eu gwaith ardderchog, tra'n gwella profiad plant o'r gwyliau ysgol trwy gynnig pryd bwyd angenrheidiol.

**Mae'r ddarpariaeth wedi'i gynnig yn yr ardaloedd canlynol:**

| | |
|---|---|
| **Y Rhyl** | 200 yr wythnos pob gwyliau ysgol. |
| **Parc Caia (2 leoliad)** | 250 yr wythnos yn ystod y Nadolig, y Pasg a'r Haf. |
| **Brymbo** | 40 yr wythnos. Pob gwyliau heblaw hanner tymor Chwefror a'r Nadolig. |
| **Gwersyllt** | 40 yr wythnos. Pob gwyliau heblaw hanner tymor Chwefror a'r Nadolig. |
| **Coedpoeth** | 60 yr wythnos. Pob gwyliau heblaw hanner tymor Chwefror a'r Nadolig. |
| **Plas Madoc** | 200 yr wythnos. Pob gwyliau ysgol. |
| **Abergele** | 400 yn gyfangwbl yn ystod gwyliau haf 2018. |



*'... Fe gafwyd un o'n hafau lleiaf ei broblemau o ran delio ag ymddygiad heriol... roedd achosion o ymddygiad drwg yn eithriadau yn hytrach na'r arfer ac... [rydyn ni'n] priodoli hyn yn bennaf i'r bwyd sydd ar gael yn ystod y dydd.' Dyfyniad wedi'i olygu o Chwarae, Gwaith Chwarae a Bwyd ar playwales.org.uk*

## CAETHWASIAETH FODERN



Rydyn ni'n partneru gyda Hafan o Oleuni i gynnig sesiynau codi ymwybyddiaeth fel bo'r angen. Ym mis Hydref 2018, fel rhan o Wythnos Caethwasiaeth Fodern, fe gynhaliwyd wythnos o ddigwyddiadau yng Nghadeirlan Llanelwy, yn cynnwys arddangosfa o Flwch Rhoddion Stop the Traffik a noson ffilm a thrafodaeth.

Ym mis Tachwedd 2018, fy gynhaliwyd digwyddiad codi ymwybyddiaeth yn benodol ar gyfer y rhai hynny sy'n gweithio gyda'r rhai sy'n profi digartrefedd. Daeth dros 30 o bobl ynghyd o wahanol asiantaethau a grwpiau.

## ESGOBAETH DEMENTIA-GYFEILLGAR

Wedi derbyn cydnabyddiaeth am fod yn Esgobaeth sy'n gweithio tuag at fod yn ddementia-gyfeillgar gan Gymdeithas Alzheimer's, fe lwyddon ni i dderbyn cyllid gan Sefydliad Henry Smith i barhau i gyflogi Swyddog Cefnogi Dementia rhan-amser. Mae Bob Friedrich wedi bod yn gweithio gyda'n heglwysi a'r Ardaloedd Cenhadaeth i godi ymwybyddiaeth a chefnogi eglwysi i fod yn fwy dementia-gyfeillgar.

## MAE GANDDON NI...

Mae **4** eglwys yn ein hesgobaeth wedi'u cydnabod gan Gymdeithas Alzheimer's trwy ein Grŵp Llywio Dementia fel rhai sy'n gweithio tuag at fod yn ddementia-gyfeillgar.

Trefnwyd **10** Gwasanaeth Sul Cyfeillion Dementia, yn cynnig cyfle i bobl fynychu addoliad ar y Sul, codi ymwybyddiaeth o ddementia a dod yn Gyfaill Dementia.

**393** o Gyfeillion Dementia ledled ein hesgobaeth.

Sefydlu **9** Prosiect Dementia, gyda mwy ar y gweill.

Cynnal digwyddiad i'r Esgobaeth gyfan i nodi Diwrnod Gweithredu Dementia yn cynnig cefnogaeth, cyngor a gwybodaeth i eglwysi a chynulleidfaoedd ynghylch sut i fod yn fwy dementia-gyfeillgar a chodi ymwybyddiaeth o ddementia.



## GOBAITH A DYFODOL

Mae cyrsiau Gobaith a Dyfodol yn annog cynulleidfaoedd eglwysi i ymgysylltu ac ymwneud â'u cymunedau lleol. Rydyn ni'n cynnig gwahanol ffurfiau o'r cwrs i eglwysi er mwyn annog eglwysi a chynulleidfaoedd i fod â gweledigaeth dros weithio gyda'i glyd i fynd i'r afael ag anghenion eu cymunedau. Ym mis Mehefin 2018, mynychodd 45 o bobl ddigwyddiad undydd yn Llangollen gyda ffocws ar sut all yr eglwys ymateb yn gadarnhaol i bobl sy'n brwydro gyda materion meddwl iechyd.

## LLOCHES NOS TYWYDD OER

Yn ystod gaeaf 2018/2019, fe wnaethon ni bartneru â Chyfiawnder Tai Cymru a Chyngor Wrecsam i agor Lloches Tywydd Oer Eglwys a Chymuned Wrecsam. Bu'n cynnig 10 gwely argyfwng am gyfnod o 10 wythnos yn ystod amser oeraf y flwyddyn i'r rhai oedd yn dioddef digartrefedd.



Defnyddio **7** lleoliad eglwys **(3 ohonyn nhw yr Eglwys yng Nghymru)** dros **69 noson** dan ofal ein cronfa o **153 o wirfoddolwyr.**

Cyfrannodd gwirfoddolwyr **3,950** o oriau shifft i redeg y lloches nos. Cyfrannwyd llawer mwy o oriau wrth osod gwelyau, golchi dillad gwely, prynu bwyd a gyrru'r bws mini.



Atgyfeiriodd Gweithiwr Estyn Allan Cyngor Wrecsam **19** o westeion at y prosiect **(3 menyw)**; o'r atgyfeiriadau hynny, arhosodd **18 o westeion yn y lloches.**

Sicrhaodd **3** o'r gwesteion gartref modwlar dan ofal Cyngor Wrecsam (fe sicrhaodd ein gwesteion ninnau'r holl denantiaethau oedd ar gael).

Ar ddiwedd y prosiect, roedd **50%** o'r gwesteion wedi un ai sicrhau rhyw fath o lety neu wedi symud i mewn gydag aelod teulu.

### *DYFYNIAD O LYTHYR GAN FAM I FAB DIGARTREF*

*... Yn fy marn i, mae'r ffaith bod yna bobl sy'n darparu'r gwasanaeth hwn heb holi na barnu, yn sicr o roi gobaith i lawer o unigolion digartref, gan wybod eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel bodau dynol sy'n haeddu o leiaf to uwch eu pennau. Fel mam, rydw innau hefyd wedi gallu cysgu'r nos, yn gwybod nad ydy'r mab allan yn yr oerfel. Mae fy mab yn cael ei garu'n fawr a'r gobaith ydy y bydd yn cael hyd i ystyr i'w fywyd a chefnu ar ei ddewis o lwybr presennol. Diolch unwaith eto i bawb ohonoch.*




# Grŵp Llywio Meithrin

*gan Rosalind Williams, Swyddog Arweiniol a Chyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Mae'r Grŵp Llywio Meithrin yn cefnogi'r gwaith mewn 51 o'n hysgolion eglwys a'r holl waith gyda phlant a phobl ifanc. Ceir mwy o fanylion yn https://dioceseofstasaph.org.uk/**

## CYFLWYNIAD I'R CWRICWLWM NEWYDD

Caiff cwricwlwm newydd yng Nghymru ei lansio yn 2022 ac mae gan Ysgolion Eglwys a Bwrdd Addysg yr Esgobaeth rôl bwysig i sicrhau ei fod yn adlewyrchu ein nodweddion a'n hethos ac yn datblygu gwedd unigryw ein treftadaeth a'n diwylliant Cymreig. Rydyn ni'n treialu prosiectau i sicrhau ein bod wedi ymbaratoi'n llwyr i dderbyn y newidiadau a gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar fframwaith ar gyfer AddGref. Bydd astudiaethau achosion ar gael gyda phwyslais mawr ar ddysgu trwy holi, yn aml trwy ddefnyddio cyd-destun amgylchedd lleol yr ysgol fel ffocws.






## PROSIECT WILLIAM MORGAN

Defnyddiodd disgyblion Blwyddyn 5 yn Ysgol Esgob Morgan yr Eglwys yng Nghymru yn Llanelwy sgiliau holi i ymchwilio i fywyd yr Esgob William Morgan, gan ofyn cwestiynau mawr megis 'Pwy oedd William Morgan a beth oedd ei etifeddiaeth i Gymru?' Roedd y prosiect hwn yn cyd-fynd â datganiadau 'Beth sy'n Bwysig' Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau (Cwricwlwm Newydd Cymru). Gan ddefnyddio ymdeimlad o le a chynefin, seiliwyd y prosiect yn ardal Llanelwy, gan ymestyn ar draws yr Esgobaeth ac ymhellach wrth i'r disgyblion sgwennu llythyrau at ffynonellau posib o wybodaeth, megis: Prifysgol Caergrawnt, Cadeirlan Llanelwy, Swyddfa Archifau Lleol, Cymdeithas y Beibl, Amgueddfa Sain Ffagan a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Fe greodd y prosiect ddiddordeb mawr, gan ddarparu cyd-destun delfrydol i ymwneud yn llawn â gofynion cwricwlwm newydd Cymru.



## GWASANAETHAU YMADAWYR

Eleni, cynhaliodd Tîm Addysg yr Esgobaeth Wasanaethau Ymadawyr i nodi'r pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd i Flwyddyn 6. Cafwyd dau wasanaeth: Croesawyd 400 o ddisgyblion i'r Gadeirlan a 140 o ddisgyblion i'r Trallwng.

## GWASANAETH DIOLCHGARWCH

Pob haf rydyn ni'n ymgasglu yn y Gadeirlan i roi diolch am bawb sydd ynghlwm â'n hysgolion Eglwys. Mae Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgolion yn croesawu Penaethiaid, athrawon, gweinyddwyr, staff arlwyo, gofalwyr ysgol, a'n Llywodraethwyr, Ymwelwyr yr Esgob, Bwrdd Addysg a'n Hawdurdod Lleol Consortia a phartneriaid Llywodraeth Cymru.

## ENCIL PENAETHIAID

Cynhaliwyd ail encil i benaethiaid ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Mae hi wedi tyfu mewn niferoedd o chwech i dros 20. Mae cydweithwyr yn ymuno â ni yn y Gadeirlan am ddiwrnod wedi'i neilltuo i les ac adnewyddiad ysbrydol trwy weddi, myfyrdod a gweithgareddau.








ADEILADAU YSGOL NEWYDD

Mae Rhaglen Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 20fed Ganrif Llywodraeth Cymru'n cynrychioli'r buddsoddiad isadeiledd mwyaf yn ein hysgolion ers y 1960au, ac mae Esgobaeth Llanelwy wedi bod yn gweithio'n ddiwyd mewn cydweithrediad â'n Hawdurdodau Lleol i sicrhau bod ysgolion Eglwys yn elwa. Mae dwy ysgol newydd wrthi'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd.



SEFYDLWYD YSGOL GYNRADD Y TRALLWNG YR EGLWYS YNG NGHYMRU ym mis Medi 2017, sy'n ysgol aml-leoliad yn gweithredu ar hyn o bryd ar dri cyn-safle ysgol. Mae'r Ysgol Eglwys yng Nghymru cyfrwng Saesneg newydd yn cael ei hadeiladu ar gaeau chwarae yn Ysgol Uwchradd Y Trallwng. Mae'r prosiect hwn mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys.

Bydd yr ysgol yn cael ei hadeiladu i safonau Passivhaus – safon ynni a chyfforddusrwydd mwyaf manwl y byd, â phroses ardystio llym i'w gynnal.



YSGOL EGLWYS DDWYIEITHOG NEWYDD YDY YSGOL LLANFAIR DC, sy'n cael ei hadeiladu ar dir gyferbyn â Bryn Clwyd, Llanfair Dyffryn Clwyd. Mae'r prosiect hwn mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych. Bydd gan yr adeilad ysgol y cyfleusterau diweddaraf, ynghyd â maes parcio, mannau gwell i'r staff, mannau cyhoeddus a gwell mynediad i'r ysgol.

Bydd gan y ddwy ysgol le pwrpasol i fyfyrio sydd wedi'i lunio fel rhan o'r cynllun o'r cychwyn cyntaf. Bydd hyn yn gosod yr ethos Cristnogol wrth wraidd ysgolion newydd.



# Gwaith gyda'r rhai dan 25

DISGYBLAETH RYNGWLADOL / CYSWLLT CONFFYRMASIWN

Mae 2019 wedi gweld dechrau Disgyblaeth Ryngwladol / Cyswllt Conffyrmasiwn gydag esgobaeth Helsinki. Ymwelodd grŵp o 11 o bobl ifanc â'r Ffindir ym Mehefin ac mae disgwyl i 15 person ifanc ymweld â'r Esgobaeth hon o Helsinki ym mis Hydref. Mae pobl ifanc o bob rhan o'r esgobaeth ac o sawl cefndir yn mynychu'r daith hon. Rydyn ni wrth ein bodd bod yr esgobaeth yn gallu blaenoriaethu cynllun bwrsari er mwyn cyllido'r teithio a'r llety. Bydd hyn yn parhau dros y bum mlynedd nesaf ac yn sicrhau nad ydy diffyg cyllid yn rhwystro rhai rhag cyfranogi yn y profiad bythgofiadwy hwn

PERERINDOD IEUENCTID

Mae'r Pererindod Ieuenctid wedi parhau i dyfu. Mae grŵp o 22 o bobl ifanc o bob rhan o'r Esgobaeth yn cymryd rhan eleni. Mae' parhau i fod yn brofiad gwirioneddol drawsnewidiol i nifer o bobl ifanc.

GWEITHGAREDDAU ERAILL

Mae Penwythnos Oddi Cartref i Ieuenctid yr Esgobaeth wedi'i drefnu ar gyfer Hydref 2019. Mae Gwaith Ieuenctid a Phlant Ardaloedd Cenhadaeth wedi datblygu mewn sawl ffordd gyffrous, gan gynnwys grwpiau ieuenctid newydd, Agor y Llyfr, Llan Llanast, Mannau Gweddi mewn Ysgolion, grwpiau rhieni a babanod / plant, cynlluniau chwarae a gwaith creadigol iawn gydag ysgolion lleol, i enwi ond ychydig o enghreifftiau.


CAPLANIAETH ADDYSGOL

Mae Caplaniaethau Coleg Cambria a Phrifysgol Glyndŵr yn parhau. Eleni, fe welwyd lansio Tîm Caplaniaeth Ardal Genhadaeth yn Ysgol Uwchradd Brynhyfryd, Rhuthun.



GEO
















# Eiddo

*gan Michael Plane, Arolygwr Eglwysi*

**Mae gan y tîm eiddo gyfrifoldeb dros 216 o eglwysi, 136 eiddo preswyl megis ficerdai ac eiddo a rentir, a sawl adeilad arall a darnau o dir. Mae tri o aelodau i'r tîm eiddo, gyda chefnogaeth Gweinyddwr. Mae gan bob Ardal Genhadaeth Bwyllgor Eiddo i oruchwylio'r adeiladau/tir sydd ym mherchnogaeth, dan reolaeth ac yn nefnydd yr Ardal Genhadaeth. Am fwy o wybodaeth, ewch i https://dioceseofstasaph.org.uk/property/**

2018/2019 oedd blwyddyn gyntaf rhaglen Arolwg Pum Mlynedd mewnol newydd i eglwysi. Cafodd 44 o eglwysi eu harchwilio, a chwblhawyd adroddiadau darluniadol a'u dosbarthu i dimau eglwys ac Ardal Genhadaeth berthnasol.

### AROLYGIADAU PUM MLYNEDD

Cynhaliodd yr Arolygwr Eglwysi:

**9** ymweliad ag Ardaloedd Cenhadaeth i weld eu 85 eglwys.

**44** Arolwg Pum Mlynedd.

**70** ymweliad ag eglwysi i gynnig cyngor cyn ceisiadau Hawleb.

**6** cyflwyniad/ymweliad â phwyllgorau Eiddo Ardaloedd Cenhadaeth.

Mae'r dull mewnol yn golygu:

- Bod safon gyson i bob archwiliad a'r broses adrodd yn ôl
- Bod perthynas dda yn cael eu datblygu gyda Wardeiniaid Eglwysi
- Y gall trafodaethau defnyddiol ddigwydd ynghylch atgyweirio neu newidiadau

Rydyn ni'n parhau i weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Eglwysi Cenedlaethol i hyrwyddo gwasanaeth MaintenanceBooker. Mae nifer o'n Heglwysi wedi ymuno ac yn gwneud defnydd ohono ar gyfer gwaith cynnal a chadw cylchredol.

### STRATEGAETH EIDDO

Er bod gan sawl Ardal Genhadaeth Bwyllgorau Eiddo sydd wedi'u hen sefydlu, mae rhai ond newydd ddechrau. Rydyn ni wedi datblygu Pecyn Cymorth i gynorthwyo Ardaloedd Cenhadaeth a Wardeniaid i reoli eu hadeiladau i'r eithaf. Rydyn ni hefyd wedi paratoi arweinlyfr byr i geisio ystyried eiddo'n strategol

Trwy gwrs y flwyddyn fe fuon ni'n talu ymweliadau byr â phob Eglwys mewn naw Ardal Genhadaeth er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r cymunedau mae'n Heglwysi'n eu gwasanaethu, ynghyd â'r heriau a'r cyfleoedd y mae rhai o'r lleoliadau a'r adeiladau hyn yn eu cynnig. Y bwriad ydy talu ymweliadau tebyg i bob Ardal Genhadaeth dros y flwyddyn sy'n dod.

### FFORYMAU EIDDO

Dyma ichi gyfleoedd newydd i Ardaloedd Cenhadaeth a Wardeiniaid Eglwys, ynghyd ag Aelodau Pwyllgorau Eiddo gyfarfod â thimau Eiddo a Chyllid yr Esgobaeth. Trefnwyd dau hyd yn hyn, a gafodd gefnogaeth gan y Corff Cynrychioliadol, CADW ac Ecclesiastical Insurance. Mae'r fforymau eisoes wedi nodi rhai pethau sy'n bryder cyffredinol, wedi galluogi rhannu arbenigedd ac wedi adeiladu cydberthynas ledled yr esgobaeth.

## HAWLEBAU

Cynhelir Hawlebau bellach ar-lein, trwy https://churchheritagecymru.org.uk/

## CEIR TRI GWAHANOL FATH O HAWLEB:

1. **Mae ceisiadau Rhestr A** cyn ymwneud â chynnal a chadw cyffredinol neu mân-atgyweiriadau tebyg-am-debyg. Llynedd, craffwyd ar 46 o geisiadau Rhestr A, gyda 6 yn cael eu gwrthod gan y dylen nhw wedi'u cynnwys ar Restr B neu'n geisiadau Hawleb Lawn. Deliwyd â phob gwrthodiad o fewn 5 niwrnod (pob un heblaw 1 o fewn 1 diwrnod).

2. **Mae ceisiadau Rhestr B** yn ymwneud â gwaith sylfaenol (ailosod boeler, sy'n effeithio fawr ddim, os o gwbl, ar adeiledd hanesyddol yr eglwys. Cwblhawyd 32 o geisiadau Rhestr B yn llawn, a'u cymeradwyo gan y Cofrestrydd. Cyflwynwyd 4 fel rhai Rhestr B ond eu gwrthod gan fod gofyn cael cais hawleb llawn. Ar gyfartaledd, yr amser a gymerwyd i gymeradwyo cais Rhestr B am grant oedd 36 diwrnod.

3. **Mae Ceisiadau Hawleb Llawn** bellach hefyd ar-lein. Cwblhawyd 33 o hawlebau llawn hyd at gyhoeddi hawleb ar gyfer 2018, gydag amser cyfartalog o 78 diwrnod.

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 13 o geisiadau hawleb llawn yn dal ar waith. Ni chafwyd unrhyw apeliadau yn erbyn cymeradwyaeth/anghymeradwyaeth gan DAC. Cafwyd 1 hawleb na chafodd ei gymeradwyo ac a dynnwyd yn ôl.

## CYLLIDO

Mae hi wedi bod yn flwyddyn gynhyrchiol i lawer o'n heglwysi wrth sicrhau arian ar gyfer eu prosiectau. Mae rhai wedi derbyn symiau mawr oddi wrth y prif arianwyr, e.e. y Loteri, tra bod eraill wedi elwa o symiau llai gan ystod eang o arianwyr

Mae'r broses ariannu'n mynd yn fwyfwy anodd, gan fod y swm sydd ar gael wedi'i leihau ac mae mwy o gystadleuaeth am lai o arian.

Rhai llwyddiannau nodedig:

**Mae Eglwys Sant Crwst, yn Llanrwst,** wedi sicrhau dros £900,000 o gyllid ar gyfer eu prosiect, gan gynnwys grant o £707,000 gan y Loteri Dreftadaeth. Bydd y prosiect uchelgeisiol ar yr adeilad rhestredig Gradd 1 yn cynnwys gosod cegin a thoiledau, ac amlygu'r dreftadaeth Gymreig hynod ac unigryw sydd i'w chael oddi fewn i'r eglwys.



**Mae Eglwys Sant Pedr, Rhuthun,** wedi derbyn grant gan y Loteri Dreftadaeth am £96,000 tuag at adnewyddu a thrwsio ei chlychau a ffrâm y clychau. Seiliwyd y prosiect ar dreftadaeth y clychau a'u statws oddi fewn i'r gymuned leol.

**Roedd angen cyllid o dros** £15,000 ar Eglwys y Santes Fair, Treuddyn ar gyfer atgyweiriadau i'r to a'r plastr. Gwnaethpwyd sawl cais, gan gynnwys rhai i'r Esgobaeth, Ymddiriedolaeth Churchfield (Bwcle) ac Eglwysi Cymreig Sir y Fflint. Fe lwyddwyd i godi'r swm angenrheidiol.

Rhwng mis Mehefin 2018 a mis Mehefin 2019, ymchwiliodd yr adran gyllido i 27 o brosiectau posib a oedd angen arian, gan lunio strategaeth ar gyfer pob un – daeth cyfanswm y rhain i dros £2.5 miliwn.







## PERSONDAI AC EIDDO I'W RHENTU

Mae 136 o eiddo preswyl o dan ein rheolaeth, yn bersondai ac eiddo ar osod. Maen nhw'n gymysgedd o eiddo gwahanol, o ran math ac oedran, yn amrywio o ficerdy gradd II* o'r 17eg yn Aberriw (gyda'r dyddiad 1616 wedi'i arysgrifio ar y trawst derw), i adeiladau cyfoes newydd sbon.

### MAE GANDDON NI:

**42 eiddo** i'w rhentu sy'n cynhyrchu incwm - a hynny'n cael ei ail-fuddsoddi yn atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw'r portffolio eiddo.

### DROS Y 12 MIS DIWETHAF, RYDYN NI WEDI

- Prynu un eiddo ychwanegol
- Gwaredu un darn o dir fel llain i adeiladu eiddo preswyl
- Gwaredu dau bersondy (Nannerch a Llanfairtalhaiarn)

**Mae 22 eiddo** wedi gweld newid deiliaid a/neu denantiaid dros y 12 mis diwethaf ac yn destun gwaith paratoi ar gyfer deiliaid newydd.

**Mae 6 eiddo** wedi derbyn gwaith adfer/adnewyddu sylweddol.

**Mae gan 44 eiddo** systemau cynhesu olew ac ar hyn o bryd rydyn ni wrthi'n dod i ben â rhaglen o welliannau i uwchraddio tanciau olew tanwydd a phibellau bwydo olew.

Ymgymerir â rhaglen o drwsio a pheintio allanol gylchredol ar gylch o bum mlynedd ar y mwyaf. Fel arfer, mae hyn yn golygu gwaith ar oddeutu 25 eiddo pob gwanwyn a haf.

Mae prosiectau gwaith pellach yn cynnwys creu Swyddfeydd Ardaloedd Cenhadaeth ledled yr Esgobaeth sy'n cael eu hariannu'n rhannol trwy Gronfa Gwella Persondai, gyda chyllideb o hyd at £20,000.

Mae'r gwaith o sefydlu Swyddfeydd Ardal Genhadaeth yn Ardaloedd Cenhadaeth yr Alun a Dyffryn Clwyd wedi'u cwblhau, gyda chynlluniau am ddwy swyddfa ychwanegol ar gyfer Ardaloedd Cenhadaeth Aber-Morfa a Moryd a Mynydds.

Mae gwaith yn digwydd ar hyn o bryd i drawsnewid yr hen Reithordy ym Mae Colwyn yn ddwy uned breswyl ar osod.

*Rydyn ni'n derbyn ac yn rheoli ceisiadau brys am waith atgyweirio a chynnal a chadw 24/7 ac mae ganddon ni rwydwaith o gontractwyr sy'n gallu ymateb ar ein rhan. Mae'r nifer o alwadau brys ar ei anterth ar adegau o dywydd garw ac ar ddechrau'r tymor cynhesu yn enwedig.*
*Yn dilyn Storm Gareth ym mis Mawrth 2019, fe dderbynion ni alwad brys ar benwythnos wedi i gangen go fawr o goeden Cypreswydden ddisgyn yn agos at ficerdy. Sicrhawyd y caniatâd angenrheidiol a'r diwedd fu gorfod torri'r goeden gyfan i lawr.*



# Cyllid

*gan Diane McCarthy, Ysgrifennydd yr Esgobaeth*

**Mae Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth yn cynnwys cynrychiolwyr lleyg a chlerigol wedi'u hethol gan eglwysi ar hyd a lled yr esgobaeth, ynghyd ag aelodau ex-officio.**

## AROLWG 2018

Mae'r Bwrdd yn parhau i stiwardio a chyfeirio adnoddau ariannol yr esgobaeth tuag at adeiladu'r Deyrnas a rhannu newyddion da Efengyl Iesu Grist. Yn gyffredinol, mae cyfrifon 2018 yn dangos diffyg am y flwyddyn yn y Gronfa Gyffredinol o £109,923. Neilltuwyd £382,270 i ddelio ag unrhyw ddiffyg tebygol, felly mae hyn yn dangos fod pethau wedi gweithio allan yn well na'r disgwyl. Yr her sy'n parhau i ni ydy ceisio cydbwyso buddsoddiad angenrheidiol mewn tyfiant a chefnogaeth i fentrau newydd heb roi gormod o bwysedd ar eglwysi unigol. Mae'r Bwrdd yn cymryd ei chyfrifoldeb o ddifri i gefnogi pob un o'n heglwysi trwy'r cyfnod hwn o newidiadau dwys, yn ariannol ac yn fugeiliol, wrth inni geisio adeiladu eglwys gryfach ar gyfer 2020 a thu hwnt.

Mae'r elfen fwyaf yng nghyllideb yr esgobaeth (79%) yn parhau i ymwneud â chostau clerigol. Mae'r costau hyn yn cynnwys cyflogau, pensiynau a chostau tai a lletya. Mae'r Bwrdd hefyd yn neilltuo cyllid tuag at gefnogi gwaith Grwpiau Llywio'r Esgobaeth ym meysydd hanfodol Datblygu, Ymgysylltu â, a Meithrin holl bobl Dduw. Mae'n ariannu gwaith Tîm Swyddfa'r Esgobaeth, sy'n darparu cefnogaeth gyson i fywyd ein heglwysi a'n Hardaloedd Cenhadaeth.

Mae ein heglwysi lleol yn parhau i gwrdd â rhan arwyddocaol o holl gostau cynnal yr Esgobaeth ac mae'n diolch iddyn nhw am eu cefnogaeth barhaus i genhadaeth a'r weinidogaeth. Gwelwyd cynnydd o 3% yn Nghyfran yr Ardaloedd Cenhadaeth yn 2018 i ddelio â chynnydd o 2.7% yng nghyflogau clerigwyr a thaliadau i leygwyr, ynghyd â chynnydd o 2.7% yng nghostau lletya clerigwyr. Roedd y grant bloc blynyddol gan Gorff Cynrychioliadol yr Eglwys yng Nghymru'n cynrychioli 23% o incwm yr esgobaeth.

Yn 2018, mabwysiadwyd Cyllid Ardal Genhadaeth gan bob un o'n 21 Ardal Genhadaeth. Cytunir ymlaen llaw gan yr eglwysi cyfansoddol ar gyfraniad pob eglwys i gyfanswm y Gyfran Ardal Genhadaeth, ac mae'n rhaid i bob eglwys o fewn i'r un Ardal Genhadaeth dalu eu rhan yn llawn ac ar amser er mwyn caniatáu'r Cynllun Disgownt Ardal Genhadaeth dalu allan. Yn 2018, roedd 20 o'r 21 Ardal Genhadaeth yn gymwys i dderbyn i disgownt hwn. Rydyn ni'n arbennig o ddiolchgar i holl drysoryddion ein heglwysi am eu gwasanaeth ymroddedig a ffyddlon. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn neilltuol o heriol gan inni gyflwyno meddalwedd cyfrifo newydd i'n holl eglwysi ac mae'n trysoryddion wedi ymateb yn ardderchog i'r her.

Disgynnodd gwerth cronfeydd yr esgobaeth ar ddiwedd 2018 fel canlyniad i amgylchiadau neilltuol o heriol ar y Farchnad Stoc yn chwarter olaf 2018. Llwyddwyd i adfer llawer o'r golled hon yn chwarter cyntaf 2019, ond mae'r rhagolygon economaidd yn parhau'n ansicr yn wyneb yr hinsawdd wleidyddol gyfnewidiol fyd-eang. Yn fwyaf arbennig, mae'r ansicrwydd parhaol ynglŷn â Brexit yn dal i ansefydlogi'r marchnadoedd ariannol.








# Edrych i'r Dyfodol

## CYNLLUNIAU'R DYFODOL – BLAENORIAETHAU AR GYFER 2019 A THU HWNT

- Rheolaeth ariannol effeithiol a chynllunio ymlaen llaw er mwyn cefnogi cyflenwi strategaeth yr esgobaeth.
- Cynllunio a rheoli gostyngiad yn y diffyg ariannol presennol ar weithrediadau dros y bum mlynedd nesaf, gan ddychwelyd at gyllideb gytbwys neu warged bach o 2020 ymlaen.
- Buddsoddi ym Mhrosiect Stryd Gobaith, mewn partneriaeth â Chronfa Efengylu yr Eglwys yng Nghymru.
- Buddsoddi yn natblygiad strategaeth wledig greadigol a chynhwysfawr i sicrhau ac ail-ddychmygu cenhadaeth a gweinidogaeth yn ein hardaloedd gwledig.
- Sicrhau cynigion cadarn ac ystyrlon ar gyfer trefniadau ariannol Ardaloedd Cenhadaeth a chefnogi eglwysi trwy'r newid hwn gydag ymgynghoriadau, hyfforddiant a chyfathrebu priodol.
- Cefnogaeth i'r rhaglen Arwain eich Eglwys at Dwf, wrth inni geisio tyfiant ein heglwys o ran cenhadaeth ac efengylu, mewn ysbrydolrwydd ac mewn niferoedd.

## CYLLIDEB 2019




Mae hyn yn golygu, am bob £1 o incwm yr esgobaeth, mae:

- 71c yn dod o Gyfran Ardal Genhadaeth
- 23c yn dod o'r Eglwys yng Nghymru yng Nghaerdydd
- 3c ydy'r incwm o fuddsoddiadau'r esgobaeth
- 3c yn dod o ffynonellau eraill megis cymynroddion a grantiau

Mae hyn yn golygu, am bob £1 o wariant gan yr esgobaeth, mae:

- 79c yn mynd ar gostau clerigwyr, gan gynnwys tai
- 8c yn talu am gyflogau tîm Swyddfa'r Esgobaeth
- 6ch yn ariannu gwaith y Grwpiau Llywio
- 7g yn mynd ar gostau eraill megis cymorth cyfreithiol, costau adeiladu, cyfathrebu a dyfarnu grantiau







# Cysylltwch

Esgobaeth Llanelwy,
Swyddfa'r Esgobaeth, Stryd Fawr,
Llanelwy, LL17 0RD

01745 582245

dioceseofstasaph.org.uk

@StAsaphDiocese

Arwyddwch i dderbyn StAR, ein trosolwg o'r hyn sy'n digwydd:
https://dioceseofstasaph.org.uk/st-asaph-round-up-newsletter/